| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Pensiynau |
| **Dyddiad:** | 15/09/2025 |
| **Teitl:** | Cofrestr Risg |
| **Pwrpas:** | Cyflwyno fersiwn ddiweddaraf Cofrestr Risg y Gronfa Bensiwn i'r Pwyllgor Pensiynau |
| **Awdur:** | Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid,<br>Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi<br>Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## 1. Cefndir

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnal Cofrestr Risg er mwyn nodi, mesur a rheoli'r risgiau sy'n gallu effeithio ar reolaeth, perfformiad, ac atebolrwydd y Gronfa. Mae'r ddogfen yn arf rheoli allweddol ac yn rhan annatod o'r fframwaith llywodraethu risg y Gronfa.

## 2. Diweddariadau ar gyfer 2025

Mae'r fersiwn 2025 wedi'i diwygio i gynnwys:

- Gofynion Cod Cyffredinol newydd yr Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) (Risg 1.4)
- Cyflwyniad y Dashfwrdd Pensiynau a goblygiadau'r newid hwnnw (Risg 6.12)
- Prosiect yr Wyddfa - Y newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol / 'Fit for Purpose' (risgiau 9.1 – 9.3)

Mae copi o'r Gofrestr gyfredol ynghlwm fel **Atodiad A**.

Mae'n ddogfen weithredol a bydd adolygiad rheolaidd a diweddariad ar gyfer unrhyw risgiau sylweddol sydd yn datblygu.

Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd Pensiwn yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2025, mae dau ddiweddariad allweddol wedi'u gwneud i'r Gofrestr Risg:

- Ychwanegwyd risg newydd mewn perthynas â chyflwyno system gyflogres newydd sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer 2026 (Risg 6.13).
- Cafodd lefel y risg ar gyfer ymosodiadau seiber ei chynyddu yn sgil digwyddiadau diweddar sydd wedi effeithio ar sefydliadau mawr, gan gynnwys Marks & Spencer a'r Co-op (Risg 6.7).

## 3. Edrych i'r Dyfodol

Mae'n debygol y bydd angen diweddariadau pellach i'r Gofrestr Risg yn dilyn y prisiad diweddaraf ac wrth weithredu'r newidiadau deddfwriaethol a ddaw yn sgil y rheoliadau Addas i'r Dyfodol / 'Fit for Purpose'.

## 4. Rôl y Pwyllgor

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor craffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.